Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# **Diweddariad** 2018 Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol








2018

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG07756 ISBN Digidol: 978 1 83876 202 5

# Cynnwys


Rhagair .......... 2

1 Cyflwyniad .......... 4

2 Cynnydd a Diweddariad o'r Rhaglen .......... 5

2.1 Cynlluniau wedi'u cwblhau .......... 5
2.2 Cynlluniau newydd .......... 5
2.3 Cyflawni ac amserlenni .......... 5

3 Cyllido .......... 6

3.1 Trosolwg .......... 6
3.2 Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd .......... 8

Atodiad A - Cynlluniau NTFP wedi'u cwblhau (2017 – 2018) .......... 10

Atodiad B – Amserlen Gyflawni .......... 11

Atodiad C – Prosiectau a fydd yn ceisio cyllid dan raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yng Nghymru .......... 39

# Rhagair

Fy mwriad yw adolygu'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn flynyddol. Hwn yw'r ail ddiweddariad ac mae'n disgrifio'r hyn a gyflawnwyd, mentrau newydd a ystyriwyd, a sut y cyflenwir y rhaglen dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd diweddariad arall ar gyfer 2019, a bydd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r Cynlluniau Rhanbarthol. Mae'n bwysig bod y Cynllun yn dryloyw ynghylch y ffordd mae cyllid yn cael ei ddyrannu ledled Cymru. Ein bwriad yw sicrhau y bydd cynigion ar gyfer gwariant yn y dyfodol yn fwy cytbwys o ran y ffordd mae arian yn cael ei wario ar draws y rhanbarthau.

Rwy'n falch o'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod 2018. Rydym wedi cwblhau nifer o gynlluniau seilwaith mawr gan gynnwys Gwelliannau Diogelwch Twneli Brynglas, Ffordd Osgoi y Drenewydd a Chyffordd 28 yr M4.

Ym mis Hydref 2018, lansiwyd cysylltiad rheilffordd newydd Cymru a'r Gororau. Gyda'r buddsoddiad o bron £5 biliwn dros y degawd a hanner nesaf, bydd ein gwasanaethau rheilffordd yn cael eu trawsnewid i ddiwallu anghenion cymunedau ledled Cymru yn well.

Gan ddefnyddio'r pwerau newydd a gawsom yn Neddf Cymru 2017, rydym wedi dechrau gweithio ar ail-lunio'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus i gefnogi ein huchelgais i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus. Nodwyd ein syniadau ar gyfer diwygio yn ein Papur Gwyn newydd – Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus.

Mae'r heriau rydym yn eu hwynebu wrth ddatgarboneiddio trafnidiaeth a gwella ansawdd aer bellach mor ddifrifol ag erioed. I fynd i'r afael â'r rhain rydym yn parhau i weithio ar ddatblygu system drafnidiaeth integredig, ddi-dor, amlfoddol i Gymru, sy'n hygyrch, yn fforddiadwy ac yn integredig ar draws Cymru gyfan; gan ddarparu dewis a chyfle yn ddewis amgen ymarferol i'r car preifat. Bydd hyn yn ysgogi rhagor o bobl i ddefnyddio ein system trafnidiaeth gyhoeddus a lleihau ein troed carbon.



**Ken Skates AC**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**

# 1 Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n nodi'n fanylach sut y bwriadwn gyflawni'r canlyniadau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru o 2015 a thu hwnt. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys yr holl ymyriadau cludiant a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Diweddariad 2018 o'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd ers 2017 ac yn darparu rhaglen ddiwygiedig ar gyfer y ddwy flynedd nesaf a thu hwnt. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi:

- Yr amserlen ar gyfer ariannu a chyflawni'r cynlluniau a wneir gan Lywodraeth Cymru;
- Amcangyfrif o'r gwariant sy'n ofynnol i gyflawni'r cynlluniau;
- Y ffynonellau ariannu tebygol i ganiatáu ar gyfer cyflawni'r cynlluniau.

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu unwaith eto ar ddiwedd 2019, ac yn cael ei alinio â'r Cynlluniau Rhanbarthol, ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

Nid dogfen bolisi yw'r Cynllun hwn ac nid yw'n ceisio blaenoriaethu cynlluniau i'w datblygu. Mae rhai o'n prosiectau yn cael eu cyflawni, mae rhai wrthi'n cael eu creu ac eraill yn cael eu datblygu.

# 2 Cynnydd a Diweddariad o’r Rhaglen

## 2.1 Cynlluniau wedi’u cwblhau

Ers 2017, cwblhawyd nifer o gynlluniau gan gynnwys Gwelliannau Diogelwch Twneli Brynglas, Ffordd Osgoi y Drenewydd a Chyffordd 28 yr M4, yn ogystal â lansiad Masnachfraint Cymru a'r Gororau newydd. Nodir rhestr o'r cynlluniau a gwblhawyd yn Atodiad A.

## 2.2 Cynlluniau newydd

Mae 6 o gynlluniau ychwanegol bellach wedi’u cynnwys yn y rhaglen drafnidiaeth:

- NEWYDD 19 - Bwrw ymlaen i enwebu blaenoriaethau Cymru a’r Gororau ar gyfer buddsoddiadau o dan raglenni Mynediad i Bawb Cymru a Lloegr Llywodraeth y DU ar gyfer Cyfnod Rheoli 6, gan ddechrau ym mis Ebrill 2019, wedi’i gytuno â’r diwydiant rheilffyrdd. Dyddiad terfyn enwebiadau Llywodraeth y DU oedd 16 Tachwedd 2018.
- NEWYDD 20 - Uned Ddadansoddi Trafnidiaeth Cymru.
- NEWYDD 21/22 - Datblygu yn unol â Phrif Gynllun 2040 ar gyfer y Maes Awyr.
- NEWYDD 23 Rheoli Ystad Sain Tathan.
- NEWYDD 24 Trawsnewid Ystad Sain Tathan.

## 2.3 Cyflawni ac amserlenni

Mae cynlluniau Diweddariad 2018 o’r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn gyfuniad o fentrau refeniw a chyfalaf. Mae’r rhain yn amrywio o fentrau cynlluniau penodol i eraill lle mae angen rhagor o waith ymchwiliol/datblygu.

Mae amserlen gyflawni sy'n nodi cynlluniau'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn Atodiad B. Mae'r amserlen gyflawni’n adlewyrchu'r rhagdybiaethau cyfredol am broffil cyflwyno pob cynllun a gall y rhain fod yn destun newid, gan gydnabod y prosesau statudol y mae'n rhaid eu cwblhau a’r angen i fod yn ymatebol i amgylchiadau cyfnewidiol.

Bydd yr amserlen gyflawni yn parhau i gael ei hadolygu a’i diweddaru wrth i broffil cyflawni cynlluniau penodol ddod yn fwy eglur.

# 3 Cyllido

## 3.1 Trosolwg

Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau gwerth am arian a hybu effeithlonrwydd ym mhob cynllun trafnidiaeth.

Caiff y cynlluniau a nodir yn Niweddariad 2018 o’r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol eu cyflawni drwy ddefnyddio nifer o ffynonellau cyllido, ond yn bennaf gyllidebau cyfalaf a refeniw adran drafnidiaeth Llywodraeth Cymru.

Cyfanswm cost y cynlluniau sy’n cael eu cynnwys yn yr Niweddariad 2018 o’r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (o 2018/19 hyd 2019/20) yw £1540.3 miliwn yn erbyn cyllideb o £1441.1 miliwn. Bydd unrhyw ddiffyg yn cael ei bontio trwy ddefnyddio ffynonellau arian cyfatebol eraill, megis Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a bydd hefyd yn cael ei reoli trwy ail-broffilio cynlluniau, yn ôl yr angen.

Mae Tabl 4.1 isod yn nodi'r proffil gwariant dangosol dros gyfnod y Cynllun sy'n weddill. Bydd cynlluniau sydd eto i'w datblygu yn cael eu datblygu yn amodol ar ddadansoddiad achos busnes cadarn sy'n dangos gwerth am arian a thrafodaethau ar setliadau cyllideb yn y dyfodol. Caiff y rhaglen ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru wrth i ddatblygiad y cynllun fynd rhagddo.

**Tabl 4.1 Diweddariad 2018 o’r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (2018-2020) £m – Gwariant Cyfalaf a Refeniw Dangosol**

| | 2018/2019 | 2019/2020 | Cyfanswm 2 flynedd |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Refeniw Trafnidiaeth** | 330.52 | 388.00 | **718.52** |
| **Gwariant Cyfalaf Trafnidiaeth** | 343.712 | 478.07 | **821.79** |
| **Cyfanswm** | **674.23** | **866.07** | **1,540.31** |

*Mae hyn yn ddangosol yn unig, ac ni fyddwn yn gwybod yr union alldro nes bod y cyfrifon wedi’u cau.

Mae Tabl 4.2 isod yn dangos y gwariant cyfalaf arfaethedig fesul rhanbarth. Mae gwariant ar gynlluniau a fydd yn cael effaith ar Gymru gyfan wedi cael ei nodi ar wahân.

**Tabl 4.2 Diweddariad ar Gynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2018 (2018–2020) – Gwariant Cyfalaf Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru fesul Rhanbarth**

| | 2018/2019 | 2019/2020 | Cyfanswm dwy flynedd | Gwariant y pen |
|---|---|---|---|---|
| **Y Gogledd** | 19.74 | 51.18 | **70.92** | £102 |
| **Y Canolbarth a'r De-orllewin** | 12.26 | 57.83 | **70.08** | £77 |
| **Y De-ddwyrain** | 133.09 | 164.25 | **297.34** | £195 |
| **Yn Genedlaethol** | 178.63 | 204.81 | **383.44** | £118 |
| **CYFANSWM** | **343.72** | **478.07** | **821.78** | |

Mae Tabl 4.3 isod yn nodi cyllideb Cyfalaf a Refeniw Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn cynnwys cyllid ERDF o hyd at £160 miliwn hyd 2023 a £125 miliwn o gyllid yr Adran Drafnidiaeth (ar gyfer metro de Cymru).

**Tabl 4.3 Diweddariad 2018 o'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol (2018-2020) £m – Cyllideb Cyfalaf a Refeniw Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru***

| | 2018-19 | 2019-20 | Cyfanswm 2 flynedd |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Trafnidiaeth LlC** | 331.48 | 313.26 | **644.74** |
| **Cyllideb Cyfalaf Trafnidiaeth LlC** | 349.48 | 446.88 | **796.36** |
| **Cyfanswm** | **680.96** | **760.14** | **1,441.10** |

*Nid yw hyn yn cynnwys cyllid ERDF, cyllid yr Adran Drafnidiaeth a ffynonellau cyllid cyfatebol eraill. Nid yw'r cyllid ar gyfer yr M4 na'r gost wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau 2019/20 chwaith, wrth inni aros am y penderfyniad yn dilyn yr Ymchwiliad Cyhoeddus.

## 3.2 Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

Mae ein prif lwybrau a chanolfannau cludiant strategol yn cael eu hadlewyrchu yn y Rhwydwaith Trafnidiaeth Ewropeaidd (TEN- T1) - polisi'r UE a luniwyd i hyrwyddo cydlyniant, rhyng-gysylltiad a rhyngweithrededd systemau trafnidiaeth cenedlaethol trwy gymhwyso safonau cyffredin (gweler Ffigur 4.3).

1 http://ec.europa.eu/transport/themes/infrastructure/index_en.htm

**Ffigur 4.3: Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T)**
http://ec.europa.eu/transport/themes/infrastructure/index_en.htm




© Crown Copyright 2009
Cartographics : Welsh Assembly Government : ML/19/09.10/transport

Mae Atodiad C yn cynnwys manylion am brosiectau y byddwn yn ceisio eu hariannu’n rhannol o raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop 2014-2020 yng Nghymru.

# Atodiad A – Cynlluniau NTFP wedi'u cwblhau (2017 – 2018)

| Cyf NTFP | Disgrifiad o'r Ymyriad |
|---|---|
| R9 | Gwelliannau i ddiogelwch Twneli Brynglas |
| R16 | A483 / A489 Ffordd Osgoi'r Drenewydd |
| R21 | M4 Cyffordd 28 |
| BCT7a | Argaeledd gwybodaeth ddwyieithog hygyrch |
| BCT7d | Mynediad i bobl anabl |
| BCT7e | Diogelwch personol mewn cyfleusterau aros ac ar gerbydau |
| BCT7f | Paratoi ar gyfer seilwaith bysiau Cymru gyfan ac arweiniad ar ddylunio gwybodaeth |
| BCT8d | Cyflwyno cynllun y Waled Oren |
| AT1b | Sicrhau bod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cael ei gweithredu drwy: Ystyried y Mapiau Rhwydwaith Integredig i'w cymeradwyo pan fyddant yn cael eu cyflwyno yn 2018 |
| P2 | Datblygu Strategaeth Porthladdoedd: Datblygu arweiniad ar gyfer Porthladdoedd Cymru wedi'u datganoli |
| IRE3 | Datblygu prosesau safonol i sicrhau mewnbwn priodol: Cyflwyno WelTAG wedi'i adolygu a'i symleiddio |
| NEW 10 | Astudiaeth ddichonoldeb i ailagor y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth |
| RI15 | Cau croesfannau lle mae'r defnyddiwr yn agor ac yn cau'r gatiau ar reilffordd Cambria - Cau 8 croesfan yn ardal Talerddig |

# Atodiad B – Amserlen Gyflawni

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIAU AR WAITH** | | | | | |
| R10 | Gwelliannau i'r A465 o Gilwern i Fryn-mawr (Rhan 2 o gynllun deuoli Blaenau'r Cymoedd). | Dechreuodd gwaith adeiladu ym mis Rhagfyr 2014 a bydd yn parhau tan ddiwedd 2019/dechrau 2020. | | | |
| R6 | Cyffordd 33 yr M4 i'r gorllewin / A4232 | Ffordd ymuno bwrpasol i'r de - wedi'i chwblhau, ffordd ymuno i'r gogledd i'w | | | |
| R14 | Gwelliannau i Five Mile Lane, Bro Morgannwg | Ar waith. Bwriedir eu cwblhau Haf 2019. | | | |
| RI5 | Gwelliannau i Amlder Trenau ar Reilffordd Glyn Ebwy (rhan o Gam 1 y Metro): Ailddyblu 7 milltir o reilffordd rhwng Crosskeys ac Aberbîg; Gwelliannau i Gyflymder y Trenau; Platfformau Newydd yn Nhrecelyn a Llanhiledd; Gwelliannau i Signalau a Seilwaith Adeileddau. | Mae Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd gyda Network Rail i asesu'r posibilrwydd o uwchraddio'r seilwaith ymhellach, fel y gellir codi amlder y trenau a darparu gwasanaeth lle mae dau neu bedwar o drenau bob awr i Lynebwy ac yn ôl. | | | |
| **FFYRDD** | | | | | |
| **Gwaith cynnal a chadw a gweithredu ar y rhwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd** | | | | | |
| R1 | Galluogi gweithrediad diogel, effeithlon ac effeithiol o ddydd i ddydd ar y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd trwy gynnal arolygiadau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd, wedi'u cefnogi gan drefniadau gorfodi priodol a gwasanaethau penodol eraill gan gynnwys gwasanaeth y gaeaf. | Parhau i gyflwyno trefniadau cynnal a chadw a mân waith gwella. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| R30 | Bydd Systemau Trafnidiaeth Deallus ac atebion technegol arloesol yn parhau i gael eu harchwilio a'u cyflwyno mewn lleoliadau ar y rhwydwaith a fydd yn darparu buddion i'r cyhoedd, nwyddau a'r rhai sy'n rheoli'r rhwydwaith. | System teledu cylch cyfyng swyddfa gefn newydd wedi'i gosod er dibynadwyedd i weld lluniau. Waliau tân a chaledwedd rhwydwaith TGCh newydd i ddiogelu rhag ymosodiadau seiberddiogelwch. Diweddariadau wedi'u cynllunio i lansio gwefan newydd www.traffigcymru.com. Adnewyddu technoleg offer ar ochr y ffordd yn barhaus. | | | |
| R31 | Bydd mesurau i leihau ein defnydd o ynni megis goleuadau ynni isel a thechnegau arloesol i reoli'r rhwydwaith yn cael eu cyflwyno pan fydd achosion busnes penodol yn caniatáu hynny. | Dechreuodd rhaglen Cymru gyfan i uwchraddio llusernau LED a systemau rheoli Canolog ledled Cymru, mae bron i hanner y stoc goleuadau trafnidiaeth LIC yn rhai LED erbyn hyn. Mae'r rhain wedi'u darparu rhwng 2016-18, ac mae lle i ystyried rhagor o gynlluniau. | | | |
| R32 | Archwilio a phan fo'n ymarferol, defnyddio mesurau i wella ansawdd aer mewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) sy'n berthnasol i rwydwaith Llywodraeth Cymru. | Erbyn hyn, mae'r archwiliad opsiynau yn cynnwys gwaith sy'n cyd-fynd â rhagolygon Cynllun Ansawdd Aer Rhif 2 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig 2017 yn ogystal ag Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Mae dwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar y rhwydwaith yn dangos gwella ansawdd aer o'i gymharu â chyn yr ymyriadau. | | | |
| R33 | Parhau i gyflawni rhaglen flaenoriaethu ar gyfer Ardaloedd Blaenoriaeth Cynlluniau | Mae un cynllun wedi cael ei ddylunio. | | | |
| NEWYDD 1 | Pont Cleddau - cost cael gwared ar y tollau. | Mae trafodaethau â'r awdurdod lleol yn mynd rhagddynt. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Diogelwch ar y Ffyrdd** | | | | | |
| R2 | Cyflawni'r camau a nodwyd yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - | Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - cyllid grant wedi'i ddyrannu ar gyfer cyflawni cynlluniau gwella. Mae cynlluniau yn canolbwyntio ar lwybrau cerdded a beicio i'r ysgol. Mae nifer y cynlluniau a gyflawnir bob blwyddyn yn amrywio, rhwng 15 a 25 o gynlluniau o wahanol faint a chymhlethdod. | | | |
| | Cyflawni'r camau a nodwyd yn Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd) | Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd - cyllid grant wedi'i ddyrannu ar gyfer cyflawni cynlluniau gwella. Nodir cynlluniau ar sail eu potensial i leihau nifer y bobl a gaiff eu hanafu. Cyflawnir oddeutu 15-20 o gynlluniau o faint a chymhlethdod amrywiol bob blwyddyn. | | | |
| R4 | Cyflawni rhaglen o welliannau i ddiogelwch ffyrdd y tu allan i ysgolion ar y gefnffordd. | Yn parhau | | | |
| **Cynlluniau Ffordd i'w Rhoi ar Waith** | | | | | |
| R8 | Rhan newydd o draffordd i'r de o Gasnewydd a mesurau ategol gan gynnwys ailddosbarthu'r M4 presennol rhwng Magwyr a Chas-bach, ffordd gyswllt rhwng yr M48 a'r B4245 a seilwaith sy'n hwyluso beicio a cherdded. | Ymholiad cyhoeddus wedi'i gwblhau. Adroddiad yr arolygwyr wedi'i dderbyn. Proses diwydrwydd dyledus ar waith cyn cyrraedd penderfyniad ar y gorchmynion drafft. | | | |
| R11 | Gwelliannau i'r A465 o'r A470 i Hirwaun (Rhan 6 o gynllun deuoli Blaenau'r Cymoedd) ac o Ddowlais Top i'r A470 (Rhan 5 o gynllun deuoli Blaenau'r Cymoedd). | Penderfyniad ar y Gorchmynion Drafft - Chwefror 2019, Caffael a phenodi partner o'r sector preifat Chwefror 2019 - Ionawr 2020. Dechrau gwaith cynllunio ac adeiladu Ionawr 2020 - dechrau 2023. Gweithredu a Gwaith Cynnal a Chadw 2023 - 2053. | | | |
| R12 | | | | | |

| **Cyf** | **Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018** | **Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
|---|---|---|---|---|---|
| R15 | Gwelliannau i’r A40 - o Landdewi Felffre i Benblewin | Rhaglen a threfniadau caffael wedi’u diwygio o ganlyniad i fethiant rhaglen ailymweld Carillion. Cyhoeddi gorchmynion drafft Ebrill 2019. Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus Medi 2019. Caffael Contractwyr Dylunio ac Adeiladu Chwefror 2020 - Awst 2020. Dechrau adeiladu Tachwedd 2020 - Gorffennaf 2022. | | | |
| NEWYDD 2 | Gwelliannau i’r A40 (2 ac 1 cynllun) | Cyfleoedd i gyflawni yn rhan o Raglenni Mannau Cyfyng Llywodraeth Cymru sy’n cael eu hystyried. | | | |
| R17 | Ffordd Osgoi yr A487 o Gaernarfon i Bontnewydd. | Proses Caniatâd Statudol wedi’i chwblhau. Gwaith yn dechrau Ionawr 2019. Bwriedir i’r gwaith ddod i ben Tachwedd 2021. | | | |
| R18 | Gwelliannau i Gyffyrdd 15 ac 16 o’r A55 | Rhaglen a threfniadau caffael wedi’u hailystyried o ganlyniad i fethiant Carillion. Wedi ailymweld â’r rhaglen. Cyhoeddi’r dewis o lwybr Mawrth 2019. Cyhoeddi Gorchmynion Drafft Ionawr 2020. Caffael Contractwr Dylunio ac Adeiladu - Ionawr 2021, Gwaith yn dechrau - Gwanwyn 2021, Cwblhau Gwanwyn 2023. | | | |
| R19 | Gwelliannau i Bont Menai yr A55 | Yn 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru mai’r Opsiwn Porffor oedd y llwybr a ffefrir ar gyfer y 3edd Bont dros y Fenai. Mae’r camau nesaf yn cynnwys caffael cynghorwyr technegol a dylunwyr a fydd yn datblygu’r cynllun yn fanylach mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| R20 | A55 o Abergwyngregyn i Dai'r Meibion | Galluogi Cymru Rhagfyr 2018 - Gwanwyn 2019. Caffael prif gontractwr, Gwanwyn 2019 - Hydref 2019, dechrau gwaith Hydref 2019, Cwblhau Gwanwyn 2021. | | | |
| R22 | Cynnal arfarniad WelTAG (2017) Llandeilo/Ffairfach, i gadarnhau a oes angen ffordd osgoi o hyd neu a oes modd gweithredu ateb amgen. Os daw'r asesiad i'r casgliad bod angen ffordd osgoi bydd angen archwilio pob llwybr a gynigir. | Yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith WelTAG, gwneir penderfyniad ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Mae angen ystyriaethau/ syniadau amgen o ran y rhyngwyneb â Network Rail, ACA Afon Tywi, mesurau atal llifogydd a Chyngor Sir Caerfyrddin. Penodi ymgynghorwyr (Hydref 16/10/17) i gyflawni tasgau Amgylcheddol a Thrafnidiaeth yn unol â WelTAG 2017. | | | |
| R23 | A487 Pont ar Ddyfi | Wedi cwblhau Caniatâd Statudol Cymeradwyaeth Cam Allweddol Gwanwyn 2019, Dechrau gwaith Haf 2019, Cwblhau gwaith Haf 2021. | | | |
| **Cynlluniau Ffyrdd i'w Datblygu** | | | | | |
| NEWYDD 3 | Cyllid Grant wedi'i ddyfarnu i Fro Morgannwg i ddechrau astudiaeth Weltag. Wedi comisiynu Astudiaeth Economaidd yn ymwneud â gwella Cysylltedd Bro Morgannwg. | Mae Cam 2 Weltag ar waith a disgwylir eu cwblhau erbyn mis Mawrth 2018. | | | |
| NEWYDD 4 | Astudiaethau i nodi opsiynau ar gyfer gwella cysylltedd yn ne ddwyrain Caerdydd | Dyfarnwyd cyllid grant i Gyngor Caerdydd i gynnal astudiaethau cam 1 a 2 WelTAG. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| R24 | Datblygu cynllun o welliannau i Goridor Sir y Fflint yr A494/A55/A548 | Penodi asiant cyflogwyr Gwanwyn 2019, Penodi contractwr Ymglymiad Cynnar diwedd 2019, Cwblhau cam allweddol 3 Haf 2021, Cwblhau cam allweddol 4 ganol 2022, Dechrau'r gwaith diwedd 2022, Cwblhau gwaith 2025. | | | |
| R24a | Datblygu cynllun o welliannau i Goridor Glannau Dyfrdwy yr A494/A55/A548 - Pont Afon Dyfrdwy | Rydym wedi ymgynghori ynghylch opsiwn a ffefrir. Mae'r gwaith o ddylunio'r datblygiad a pharatoi Gorchmynion drafft a'r Datganiad Amgylcheddol yn parhau. | | | |
| R28a | Ymgysylltu â Llywodraeth y DU a phartneriaid yn Lloegr i ddatblygu'r cynllun canlynol: A483 Pant i Lanymynech (cynllun trawsffiniol). | Trafodaethau yn parhau â phartneriaid allweddol ar ochr Lloegr y ffin i geisio cytundeb i barhau â gwelliannau. | | | |
| R28b | Ymgysylltu â Llywodraeth y DU a phartneriaid yn Lloegr i ddatblygu'r cynllun canlynol A458 Buttington Cross i Wollaston Cross (cynllun trawsffiniol). | Trafodaethau yn parhau â phartneriaid allweddol ar ochr Lloegr y ffin i geisio cytundeb i barhau â gwelliannau. | | | |
| **Rhaglen mannau cyfyng a chyfleoedd goddiweddyd** | | | | | |
| R27a | Astudiaeth gwella cydnerthedd yr A55. | Astudiaeth gwella cydnerthedd yr A55. | | | |
| R27b | Gwella llwybrau gogledd/de (cyfleoedd goddiweddyd) yr A487 a'r A470. | Gwella llwybrau gogledd/de (cyfleoedd goddiweddyd) yr A487 a'r A470. 18 cynllun wedi'u dwyn ymlaen i'r camau dichonoldeb terfynol. | | | |
| R27c | Gwella Cyffyrdd 3-6 Ffordd Osgoi Wrecsam yr A483. | Gwaith mawr i wella seilwaith ar gyffyrdd 3-6 a rhoi lôn ychwanegol i gynyddu capasiti rhwng y cyffyrdd hyn. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| R27d | Gwella'r A5/A483 i'r Ffordd Osgoi i'r de o Wrecsam i'r Ffin â Lloegr. | Gwaith mawr i wella seilwaith i gynyddu capasiti cyffyrdd a lleihau tagfeydd a deuoli adrannau ffyrdd sengl presennol hyd at y ffin â Lloegr. Mae hyn yn cysylltu â'r cynllun deuoli arfaethedig ar yr A5 yn Lloegr dros y ffin i'r Amwythig. | | | |
| R27e | Gwelliannau i Goridor yr A470 o Goryton i Ffynnon Taf | Amrywiaeth o welliannau gan gynnwys gwelliannau mawr i seilwaith i leihau tagfeydd a chynyddu capasiti ger cyffyrdd. | | | |
| R27f | Gwelliannau i Goridor yr A470 o Ffynnon Taf i Ferthyr | Amrywiaeth o welliannau gan gynnwys gwelliannau mawr i seilwaith i leihau tagfeydd a chynyddu capasiti ger cyffyrdd. | | | |
| R27g | Coridor yr M4 o gyffordd 32 i gyffordd 35. | Amrywiaeth o welliannau gan gynnwys gwelliannau mawr i seilwaith i leihau tagfeydd a chynyddu capasiti ger cyffyrdd. | | | |
| R27h | Coridor yr M4 o gyffordd 35 i gyffordd 49. | Amrywiaeth o welliannau gan gynnwys gwelliannau mawr i seilwaith i leihau tagfeydd a chynyddu capasiti ger cyffyrdd. | | | |
| **Cefnogi gwelliannau i rwydwaith ffyrdd sirol** | | | | | |
| R3 | Datblygu cynigion ar gyfer grant cyllid cyfalaf o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i gefnogi gwelliannau strategol i drafnidiaeth ranbarthol, a fyddai'n cynnwys gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd lleol a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth. | Mae cymorth ychwanegol o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn cefnogi'r ymyriad hwn. | | | |
| **CLUDO NWYDDAU** | | | | | |
| **Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cludo nwyddau** | | | | | |
| F2 | Parhau i adolygu cyfleoedd i allu cludo | Yn parhau. | | | |
| F3 | Parhau i gefnogi datblygiad seilwaith Cludo | Yn parhau. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| F4 | Parhau i gefnogi Newid Modd (Ffyrdd i'r Rheilffyrdd) trwy ddarparu cymorth grant Cymorth Refeniw Newid Modd (Refeniw). | Yn parhau. | | | |
| **TEITHIO LLESOL** | | | | | |
| **Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru)** | | | | | |
| AT1c | Sicrhau y cyflawnir Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 trwy: Cyfeirio cyllid ar gyfer cerdded a beicio at gyflwyno cynlluniau sy'n cyfrannu at deithio llesol | Sefydlwyd Cronfa Teithio Llesol newydd ym mis Mai 2018, gyda chyllid o £10 miliwn yn 18/19, £20 miliwn yn 19/20 a £30 miliwn yn 20/21. Mae'r gronfa yn ategu'r rhaglenni cyfalaf presennol, sy'n parhau i gyllido rhai cynlluniau teithio llesol, megis llwybrau sy'n canolbwyntio'n benodol ar ysgolion trwy'r cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, prosiectau penodol o dan y Gronfa Trafnidiaeth Leol, a gwelliannau i ddiogelwch ffyrdd i gerddwyr a beicwyr o'r Grant Diogelwch ar y Ffyrdd. | | | |
| AT2 | Cyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol | Mae'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol yn ymdrin ag amryw o gamau, a gwnaed cynnydd sylweddol ar lawer ohonynt, yn fwyaf nodedig trwy gyflwyno cronfa gyfalaf arunig ar gyfer teithio llesol a chyfochri polisïau a rhaglenni allweddol, megis Polisi Cynllunio Cymru, Canllaw Achos Busnes Ysgolion yr 21ain Ganrif, Strategaeth Gordewdra. | | | |

| **Cyf** | **Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018** | **Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
|---|---|---|---|---|---|
| AT3 | Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni rhaglen o welliannau i’r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a bod hynny’n cyfrannu at amcanion y Ddeddf Teithio Llesol | Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi adolygiad Sustrans o’r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ag £20,000, a thrwy fod yn rhan o’r strwythurau cynghori ar gyfer y prosiect. Mae nifer o ‘Brosiectau Gweithredu’ yng Nghymru a nodwyd trwy’r refeniw maent yn ei gael o gyllid Llywodraeth Cymru trwy grantiau trafnidiaeth leol. | | | |
| NEWYDD 5 | Dichonoldeb llwybr beicio cenedlaethol | Arweiniodd rhagor o drafod gyda Plaid Cymru ynghylch opsiynau at gytuno y gellir canlyn hyn ar y cyd â gweithredu o Adolygiad y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (AT3); Cafwyd cytundeb mewn egwyddor y dylid defnyddio cyllid dichonoldeb yn y gyllideb i ystyried gwella llwybr Lôn Las Cymru. | | | |
| NEWYDD 6 | Pecyn Trafnidiaeth Arfordirol Gynaliadwy Caerdydd a’r Fro | Cyllid a ddyrannwyd o’r Gronfa Trafnidiaeth Leol i barhau â gwaith datblygu. | | | |
| NEWYDD 7 | Twneli Rhondda | Ni ddylai hon fod yn llinell arunig. Datblygir gwaith arolwg a dichonoldeb ar gyfer Twneli Rhondda ac Abernant gan awdurdodau lleol perthnasol ac yn amodol ar geisiadau am gyllid grant trafnidiaeth leol trwy ddilyn yr un meini prawf â chynlluniau. Cafodd £125,000 arall ei ddyrannu ar gyfer gwaith arolygu pellach ar Dwnnel Rhondda. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **RHEILFFYRDD** | | | | | |
| **Rhaglen Mynediad i Bawb** | | | | | |
| RI13 | CP5 Rhaglen Mynediad i Bawb: Gwelliannau hygyrchedd gorsafoedd yn: Llanelli, Y Barri, Trefforest, Ffynnon Taf, Cathays a Threherbert. | Mae gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar orsaf Tregatwg Q2 2019-20. Mae'r cynlluniau eraill wedi cael eu gohirio yn dilyn adolygiad o gyllid gan Lywodraeth y DU. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| RI14 | CP5 Rhaglen Mynediad i Bawb: Ymgymryd ag adroddiad astudiaethau dichonoldeb/opsiynau cyflawni ar gyfer gwella hygyrchedd yng ngorsafoedd Y Fflint, Pengam a Thregatwg. O 16/17 datblygu prosiectau hygyrchedd ychwanegol yng ngorsafoedd Y Fflint, Pengam a Thregatwg drwy ddefnyddio cyfalaf LIC a nodwyd i ysgogi cyllid cyfatebol ychwanegol (i'w gadarnhau). | Disgwylir i Lywodraeth y DU gyhoeddi CP6 Rhaglen Mynediad i Bawb ym mis Ebrill 2019. Mae'r cynlluniau yn y Barri, Cathays, Llanelli a Threfforest wedi cael eu trosglwyddo o CP5, felly, rydym eisoes wedi ymrwymo i'r cynlluniau hynny. Gwnaeth Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth gymeradwyo argymhellion gan grwpiau cyflawni lleol yn y diwydiant rheilffyrdd, i roi blaenoriaeth i orsafoedd yng Nghymru a'r Gororau sydd wedi cael eu henwebu ar gyfer CP6 Rhaglen Mynediad i Bawb Llywodraeth y DU ym mis Tachwedd 2018. Nodwyd bod buddsoddiad o £10 miliwn ar gael o dan raglen gwella gorsafoedd Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru, fel arian cyfatebol yn erbyn cyllid gan Lywodraeth y DU. Mae'r gorsafoedd sydd wedi cael eu enwebu fel a ganlyn:<br>**Canolbarth a Gorllewin Cymru**: Castell-nedd, y Fenni, Llwydlo, y Drenewydd, Cas-gwent, Dinbych y Pysgod a Chaerfyrddin<br>**Gogledd Cymru**:Y Fflint, Shotton, Rhiwabon<br>**De-ddwyrain Cymru**: Cwmbrân, Caerffili, Cogan, Pont-y-clun a Phont-y-pŵl a New Inn. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwelliannau i Amledd Gwasanaethau** | | | | | |
| NEWYDD 19 | Bwrw ymlaen i enwebu blaenoriaethau Cymru a'r Gororau ar gyfer buddsoddiadau o dan raglenni Mynediad i Bawb Cymru a Lloegr Llywodraeth y DU ar gyfer Cyfnod Rheoli 6, gan ddechrau ym mis Ebrill 2019, wedi'i gytuno â'r diwydiant rheilffyrdd. Dyddiad terfyn enwebiadau Llywodraeth y DU oedd 16 Tachwedd 2018. | O dan gytundeb grant 15 mlynedd newydd Trafnidiaeth Cymru a'r Gororau, pan fyddwn yn cymryd y cyfrifoldeb am yr ased ar gyfer Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd a defnyddio'r stoc rholio newydd sydd wedi'u harchebu. Bydd buddsoddi yn y rhwydwaith hwnnw yn gwella yn sylweddol nifer y mynedfeydd heb risiau sydd ar gael. Bydd hyn yn rhoi mynediad ar un lefel rhwng y platfformau a threnau ar draws rheilffyrdd Caerdydd a'r Cymoedd yn rhan o gynllun Metro De Cymru, o fewn y pum mlynedd nesaf. Yn ogystal â hyn, mae ymrwymiad gwerth £15 miliwn o fuddsoddiad gan Wasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru tuag at welliannau i hygyrchedd gorsafoedd. I sicrhau cynifer o fuddion â phosibl i'r ymrwymiad hwn, rydym wedi gweithio gyda Gwasanaethau Rheilffordd Trafnidiaeth Cymru i ddefnyddio £10 miliwn o hwn i roi arian cyfatebol i enwebiadau gorsafoedd Cymru a'r Gororau i gyllid Mynediad i Bawb Llywodraeth y DU yng Nghyfnod Rheoli 6, gan ymestyn y buddion i deithwyr ledled Cymru. Mae pymtheg o orsafoedd ledled Cymru a'r Gororau wedi'u henwebu wrth Lywodraeth y DU yn flaenoriaethau ar gyfer eu hariannu o dan Mynediad i bawb. Disgwylir ateb erbyn mis Ebrill 2019. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| RI4 | Cangen Maesteg – Gwelliannau Amledd gan gynnwys gwella amledd gwasanaethau – Datblygu adroddiad GRIP 4. | Mae Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn ystyried y gwaith ar uwchraddio'r seilwaith sydd ei angen i gynyddu amlder trenau. | | | |
| **Gorsafoedd newydd** | | | | | |
| NEWYDD 8 | Gorsaf Bow Street | Mae gorsaf a chyfnewidfa newydd yn Bow Street, Ceredigion, wrthi'n cael eu datblygu drwy fuddsoddiadau gan Gronfa Gorsafoedd Newydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru – £4 miliwn a £2.1 miliwn yn y drefn honno. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ym mis Mai 2020. | | | |
| NEWYDD 9 | Gorsaf Llanwern – Nodwyd fel safle parcio a theithio posibl. | Mae'r achos busnes ar gyfer y cynnig yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. | | | |
| RI8 | Datblygu meini prawf asesu a, gan ddefnyddio'r meini prawf hynny, creu rhestr wedi'i blaenoriaethu o gynigion gwella gorsafoedd i dynnu i lawr cyllid o gronfeydd penodol HLOS perthnasol (gan nad yw rheilffyrdd wedi'u datganoli). | Parhaus. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| RI10 | Cwblhau'r gwaith asesu cam 2 ar gyfer y gorsafoedd newydd arfaethedig canlynol:<br>- De-ddwyrain Cymru: Melin Trelái/Parc Fictoria, Llanwern, Heol Casnewydd/Ffordd Rover a Llaneirwg;<br>- De-orllewin Cymru: Y Cocyd, Glandŵr, Sanclêr;<br>- Gogledd Cymru: Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy/Porth y Gogledd, Gogledd Wrecsam, De Wrecsam, Llangefni;<br>Bwrw ymlaen â chylch arall o gynigion ar gyfer gorsafoedd newydd i Asesiad Cam 2 yn 2018. | Mae'r gwaith asesu cam 2 wedi cael ei wneud, asesiad modelu a dichonoldeb technegol ar gyfer yr orsaf. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cael ei chomisiynu i lunio meini prawf manwl a rhestr fer o opsiynau ar gyfer y cam nesaf. | | | |
| RI11/12 | Gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth i ddatblygu'r cynlluniau gwella seilwaith rheilffyrdd a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a'r Canghellor yng Nghyllideb yr Hydref 2017:<br>• Gwelliannau i'r orsaf yng Ngorsaf Caerdydd Canolog ac Abertawe;<br>• Gwelliannau rhwng Caerdydd a leiniau lliniaru Cyffwrdd Twnnel Hafren;<br>• Gwelliannau i'r amseroedd teithio rhwng Abertawe a Chaerdydd, a rhwng de Cymru, Bryste a Llundain:<br>• Gwelliannau i'r amseroedd teithio ar Brif Reilffordd Gogledd Cymru;<br>• Gwelliannau i'r amseroedd teithio ar y rheilffordd rhwng Wrecsam a Bidston. | Yn parhau. | | | |

| Cyf | Disgrifiad o Ymyriad yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Tachwedd 2018 | Cynnydd ers mis Rhagfyr 2017 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| RS5 | Byddwn yn ymchwilio i gyfleoedd i foderneiddio stoc rholio rheilffyrdd. | Mae rhaglen Pobl â Symudedd Is wedi’i datblygu a’i chytuno ar gyfer stoc dosbarth 150 a dosbarth 158. Mae stoc rholio ychwanegol sy’n cydymffurfio â’r gofynion ar gyfer Pobl â Symudedd Is yn cael ei gaffael. Ceir rhagor o foderneiddio yn ystod y fasnachfraint nesaf. | | | |
| NEWYDD 11 | Cronfa Gwella Ardal Wrecsam. | | | | |
| **Rheoli Masnachfraint** | | | | | |
| RS1a | Sicrhau y caiff y contract ei reoli’n effeithiol | Parhau i reoli’r contract presennol i safon uchel, gan greu’r buddion i deithwyr uwchlaw’r cyfrifoldebau yn y contract gan gynnal cydymffurfiaeth a pherfformiad ar ryw 93% ar gyfer Mesur Perfformiad Cyhoeddus a Chyfartaledd Symud Blynyddol. | | | |
| RS1b | Rheoli’r fasnachfraint bresennol gan gynnwys: Cyflwyno gwasanaethau newydd ar Brif Reilffordd Cambria a Rheilffordd Calon Cymru | Cyflwynwyd gwasanaethau ychwanegol ym mis Mai 2015. Mae’r ddau wedi llwyddo i gyflenwi rhagor o deithiau teithwyr ac mae gwasanaethau Cambria yn benodol wedi rhagori ar ragamcanion nifer y teithiau. | | | |
